



Shared
Regulatory
Services

Gwasanaethau
Rheoliadol
a Rennir

Gwasanaethau
& Ffioedd

Math y Gwasanaeth	Disgrifiad	Costau
Partneriaeth Prif Awdurdod	Gall busnesau ddewis partneriaeth ffurfiol yn un neu ragor o'r categorïau canlynol: Mae Prif Awdurdod yn bartneriaeth a gydnabyddir yn gyfreithiol rhwng awdurdod lleol a busnes. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cyngor dibynadwy, sicr i'r busnes, y mae'n rhaid i awdurdodau eraill eu hystyried cyn unrhyw gyfathrebu gyda'r busnes. Mae'n gyfle hefyd i fusnesau dderbyn cyngor wedi ei deilwra at eu harferion gwaith a'u gweithdrefnau nhw eu hunain. Gallwn gynnig Prif Awdurdod i fusnesau o bob maint ar faterion rheoleiddiol, yn cynnwys hylendid bwyd, safonau masnach (alergenau a labelu), iechyd a diogelwch a hawliau defnyddwyr.	£56 yr awr – ni chodir TAW Mae opsiynau talu hyblyg ar gael, yn dibynnu ar anghenion eich busnes, yn cynnwys gorchmynion sefydlog ac anfonebau misol.
Prif Awdurdod – Gwasanaethau Ychwanegol	• Adroddiadau Dadansoddol • Barn arbenigol • Adroddiadau Tai Profi	Prisiau ar gael ar gais ar sail adennill costau
Hyfforddiant Rydym yn cynnig hyfforddiant wedi ei achredu a'i deilwra ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar eich busnes. Yn ogystal â threfnu dyddiau hyfforddi achrededig rheolaidd, gallwn hefyd ymweld â'ch busnes i roi hyfforddiant wedi ei deilwra at eich anghenion chi.	Mae enghreifftiau'n cynnwys: • Hylendid a Diogelwch Bwyd • HACCP • Safonau bwyd – Labelu a Honiadau a Ganiateir • Alergenau • Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle • Rheoli Heintiau • Cyfraith Defnyddwyr	Prisiau ar gael ar gais ar sail adennill costau neu £56 yr awr pan ddarperir yn rhan o bartneriaeth Prif Awdurdod
Ymweliadau cyngori	Ymweliad rhoi cyngor cyn eich arolygiad bwyd	£56 + TAW yr awr Mae angen o leiaf dwy awr ar gyfer ymweliad fel arfer
Cyngor Busnes Os oes angen cyngor busnes arnoch ond nad ydych am fynd i berthynas ffurfiol, gallwn roi cyngor untro i chi ar unrhyw faes rheoleiddio.	Examples include: • Cyngor ynghylch Telerau ac Amodau • Cyngor ar bolisïau a gweithdrefnau megis systemau rheoli bwyd a diwydrwydd dyledus • Safonau bwyd – Labelu a Honiadau a Ganiateir • Polisiâu a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch	£56 + TAW yr awr

